# PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Ffordd Churton, Y Rhyl, Dydd Iau, 22 Medi 2016 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Bill Cowie, Meirick Davies, Hugh Irving, Barry Mellor, Merfyn Parry, Pete Prendergast, David Simmons, Cefyn Williams (Cadeirydd) a Huw Williams (Is-gadeirydd)

## HEFYD YN BRESENNOL

Pen Gyfreithiwr (AL), Uwch Swyddog Gorfodaeth Diogelwch Cymunedol (TWE), Swyddog Trwyddedu (JT), Swyddog Gorfodaeth Diogelwch Cymunedol (HB) a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Stuart Davies.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Penderfynodd y Cadeirydd ei fwriad i gynnwys y mater canlynol i'w drafod oherwydd bod angen rhoi sylw brys iddo:-

### TACSIS YN HYGYRCH I GADEIRIAU OLWYN

Tynnodd y Cynghorydd Joan Butterfield sylw at achos diweddar lle'r oedd nifer o dacsis hygyrch i gadeiriau olwyn yn gweithredu yn ardal y Rhyl, wedi gwrthod derbyn archeb i gludo defnyddiwr mewn cadair olwyn. Cyfeiriodd at drwyddedau cerbydau hacni ychwanegol a gyhoeddwyd yn benodol ar gyfer cerbydau hygyrch i gadeiriau olwyn er mwyn darparu'r gwasanaeth hwnnw, a mynegodd bryderon difrifol bod tacsis sy'n hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn gwrthod ei roi. Roedd y swyddogion yn ymwybodol bod nifer o dacsis wedi cael eu hysbysebu fel cludwyr cadeiriau olwyn arbenigol a chytunwyd i edrych i mewn i'r mater ymhellach.

***PENDERFYNWYD** bod swyddogion yn ymchwilio a yw tacsis sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn sy'n gweithredu yn yr ardal yn darparu gwasanaeth tacsi addas i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, ac adrodd yn ôl i'r aelodau ar hynny.*

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2016 a'r Pwyllgor Trwyddedu Arbennig a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2016.

***PENDERFYNWYD** derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2016 a 23 Mehefin 2016 fel cofnod cywir.*

## 5 ADOLYGU'R POLISI MASNACHU AR Y STRYD

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (JT) adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol), yn hysbysu aelodau o gynnydd o ran yr adolygiad o'r polisi masnachu ar y stryd cyfredol yn Sir Ddinbych.

Rhoddodd Swyddogion rywfaint o gefndir i weithrediad cyfredol y gyfundrefn masnachu ar y stryd a oedd yn cael ei hadolygu, er mwyn mynd i'r afael ag anawsterau yn y system a rheoleiddio a chefnogi masnachu ar y stryd yn well yn y sir. Roedd y diffiniad o fasnachu ar y stryd wedi cael ei nodi yn yr adroddiad ynghyd ag eithriadau cyfreithiol ar gyfer mathau penodol o fasnachu, a'r rhai a reoleiddir gan ddulliau neu awdurdodau eraill. Gofynnwyd am farn yr Aelodau ar ddrafft cychwynnol (yn amgaeedig gyda'r adroddiad) ac roedd swyddogion yn bwriadu parhau i weithio ar y drafft, gan ystyried unrhyw ofynion deddfwriaethol newydd, cyn cynhyrchu strategaeth ddrafft derfynol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ac ystyriaeth wedi hynny gan y pwyllgor.

Roedd trafodaeth ar y materion polisi yn cynnwys y canlynol -

- cafodd y cynnig i gyflwyno system o "ganiatâd bloc dros dro" fel y manylir ym mharagraff 4.3.3 o'r adroddiad ei gefnogi'n llawn gan y Cynghorydd Barry Mellor, er mwyn ei gwneud yn haws i drefnwyr digwyddiadau cymunedol ac annog presenoldeb
- cyfeiriwyd at y strydoedd gwaharddedig ar gyfer dibenion masnachu ar y stryd yn y Rhyl a Phrestatyn, a chadarnhaodd swyddogion y byddai rhan o'r adolygiad yn cynnwys p'un a fyddai unrhyw newid i'r system gyfredol o strydoedd â chaniatâd a rhai gwaharddedig yn briodol, gan gymryd i ystyriaeth y gwahanol ardaloedd o fewn y sir er mwyn caniatáu mwy o hyblygrwydd o fewn y cynllun
- nodwyd bod y Cynghorydd Bill Cowie wedi ei enwebu fel cyswllt y pwyllgor ar ddatblygiad y polisi drafft a chadarnhaodd swyddogion y byddent yn croesawu ei gyfraniad wrth ddatblygu'r drafft terfynol ymhellach - canmolodd y Cynghorydd Cowie y gwaith hyd yma ar y drafft cychwynnol ac fe gefnogodd waith parhaus y swyddogion ar yr adolygiad fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Holodd yr Aelodau a oedd rheoleiddio gweithgareddau penodol sy'n peri pryder yn rhan o gylch gwaith masnachu ar y stryd ai peidio, gan gynnwys trwyddedau parcio a roddwyd i gontractwyr sy'n gweithio o fewn canol trefi (a oedd wedi achosi rhywfaint o anghytuno yng Nghanol Tref y Rhyl) a masnachwyr twyllodrus a oedd yn gweithredu o gerbydau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Dywedodd y swyddogion bod y ddau fater yn disgyn y tu allan i'r gyfundrefn masnachu ar y stryd. Roedd trwyddedau parcio yn cael eu hawdurdodi gan Adain Gwaith Stryd Priffyrdd a gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau drafod unrhyw bryderon yn hynny o beth yn uniongyrchol gyda'r Pennaeth Priffyrdd. O ran masnachwyr twyllodrus, dylai aelodau gyfeirio eu pryderon at yr Adain Safonau Masnach ar gyfer ymchwiliad.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Trwyddedu yn -*

*(a)* *awdurdodi'r swyddogion i barhau â'r gwaith ar y Polisi Masnachu ar y Stryd drafft, gan ystyried unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol sydd ar ddod a allai effeithio ar reoleiddio masnachu ar y stryd fel y'i drafftiwyd gan Lywodraeth y DU, ac*

*(b)* *awdurdodi swyddogion i ymgynghori ar bolisi drafft, a chymryd i ystyriaeth unrhyw sylwadau a ddaw i law, a llunio drafft terfynol i aelodau ei ystyried yn eu cyfarfod ym mis Mawrth 2017.*

## 6 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cyflwynwyd adroddiad gan bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ynglŷn â rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer 2016.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo rhaglen waith y Pwyllgor Trwyddedu.*

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD*** *dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 13 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

## 7 ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 15/1594/TXJDR

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn ag –

(i) addasrwydd Gyrrwr Rhif 15/1594/TXJDR i ddal trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat yn dilyn cronni 20 o bwyntiau cosb o dan gynllun pwyntiau cosb y Cyngor am gyflwyno cerbyd trwyddedig i'w brofi mewn cyflwr anniogel a pheryglus;

(ii) bod manylion ynghylch y diffygion a nodwyd yn dilyn cyflwyno'r cerbyd ar gyfer Prawf Cydymffurfio/MOT Mai 2016 a chyhoeddi 20 pwynt cosb wedi eu cynnwys yn yr adroddiad, ynghyd â datganiadau tyst cysylltiedig a dogfennaeth;

(iii) y Gyrrwr wedi apelio'r penderfyniad i ddyfarnu'r 20 pwynt cosb ar y sail, ei fod wedi cyflwyno'r cerbyd ar gyfer y prawf o flaen llaw mewn garej wahanol, a bod y gwaith trwsio angenrheidiol wedi cael ei wneud yn unol â methiant y prawf a hysbysiadau cynghori (nid oedd y ddwy eitem a nodwyd fel 'peryglus' yn y prawf dilynol ym Mai wedi cael eu nodi yn ystod y prawf cyntaf) – y Gyrrwr wedi methu â darparu tystiolaeth ddogfennol o'i hawliadau ac ar ôl ymchwiliadau, fe wrthododd y swyddogion yr apêl, a

(iv) bod y Gyrrwr wedi cael ei wahodd i fod yn bresennol yn y cyfarfod i gefnogi adolygiad o’i drwydded, er mwyn gallu ateb cwestiynau’r aelodau ynglŷn â hynny.

Roedd y Gyrrwr yn bresennol yn y cyfarfod i gefnogi ei chais a chadarnhaodd ei fod wedi derbyn yr adroddiad a threfnau’r pwyllgor.

Amlinellodd y Swyddog Gorfodi Trwyddedu'r achos fel y manylir yn yr adroddiad.

Derbyniodd y Gyrrwr y ffeithiau fel y nodwyd yn yr adroddiad, ar wahân i'r methiant i gredu ei fod wedi cyflwyno’r cerbyd i'r Orsaf Brofi ymlaen llaw. Dadleuodd ei fod wedi cymryd pob cam rhesymol i sicrhau addasrwydd y cerbyd ac fe fanylodd ar y digwyddiadau a arweiniodd at Fethu’r Prawf Cydymffurfio/MOT a oedd yn cynnwys (1) adnewyddu'r cerbyd mewn siop rhannau ceir; (2) cyflwyno’r cerbyd mewn Gorsaf Brofi lle cafodd cyn-archwiliad ei wneud a nododd bump o ddiffygion; (3) cyflwyno'r cerbyd i garej wahanol a drwsiodd y diffygion a nodwyd, a (4) cyflwyniad terfynol o’r cerbyd ar gyfer Prawf Cydymffurfio/MOT angenrheidiol a arweiniodd at fethu’r prawf. Darparodd y Gyrrwr dystiolaeth o daliadau a wnaed i bob un o'r tair garej ar wahân a nodwyd yn ei gyflwyniad, er nad oedd tystiolaeth o'r gwaith a wnaed a’r diffygion a nodwyd wedi cael eu rhoi. Rhoddwyd tystiolaeth ddogfennol ar ffurf datganiad tyst yn cadarnhau casglu’r cerbyd o'r Orsaf Brofi a’i gyflwyno i garej ar wahân ar gyfer gwaith trwsio. Yn olaf, cyflwynwyd llythyr gan Frocer Yswiriant y Gyrrwr i gefnogi ei achos. Wrth gloi ei gyflwyniad, dywedodd y Gyrrwr ei fod wedi cymryd pob cam rhesymol i sicrhau cydymffurfiaeth ac wedi ymddiried mewn gweithwyr proffesiynol tair garej ar wahân a oedd wedi methu adnabod y diffygion fel y rhestrir ar yr hysbysiad methiant. Rhoddodd sicrwydd bod camau wedi’u cymryd ar unwaith i drwsio’r diffygion unwaith y cawsant eu nodi ac nad oedd y cerbyd wedi bod yn berygl i'r cyhoedd, gan nad oedd wedi bod yn gwasanaethu yn ystod y cyfnod yn arwain at fethu’r prawf. Yn olaf, fe roddodd y Gyrrwr rhywfaint o wybodaeth gyffredinol am reoli ei fusnes a chynnal a chadw ei gerbydau trwyddedig heb ddigwyddiad blaenorol.

Cymerodd yr Aelodau’r cyfle i godi cwestiynau gyda'r Gyrrwr er mwyn egluro trefn y digwyddiadau ymhellach a'r camau yr oedd wedi’u cymryd mewn ymateb i amgylchiadau penodol i sicrhau bod y cerbyd mewn cyflwr diogel ac addas i'r ffordd fawr, ynghyd â chwestiynau ynghylch rheolaeth gyffredinol ei fusnes a threfn cynnal a chadw cerbydau. Ymatebodd y Gyrrwr i gwestiynau hefyd ynglŷn â'r dystiolaeth ddogfennol a gyflwynodd o blaid ei achos a’r rhesymeg y tu ôl i'r diffyg tystiolaeth ategol wrth gofnodi gwaith archwilio a thrwsio cerbydau, fel y nodwyd yn ei gyflwyniad i'r pwyllgor.

Yn ei ddatganiad terfynol, dywedodd y Gyrrwr ei fod wedi bod yn onest yn ei gyflwyniadau a thynnodd sylw'r aelodau at y dystiolaeth a gyflwynwyd, gan gynghori y gallai ddarparu datganiadau tystion pellach os oes angen. Roedd yn credu ei fod wedi ymddwyn yn gyfrifol yn yr achos hwn ac wedi cael ei siomi gan weithwyr proffesiynol eraill.

Ar y pwynt hwn torrodd y pwyllgor i ystyried yr achos a -

***PHENDERFYNWYD** nad oedd yr honiadau a wnaed yn erbyn Gyrrwr Rhif 15/1594/TXJDR wedi eu profi ac felly does dim angen gweithredu pellach.*

Dyma oedd y rhesymau am benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

Roedd yr Aelodau wedi ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd yn ofalus, a'r cyflwyniadau gan y Gyrrwr a'i ymateb i gwestiynau. Ystyriodd y pwyllgor fod y dystiolaeth yn yr achos hwn yn awgrymu bod y Gyrrwr wedi dilyn cyngor gweithwyr proffesiynol eraill, ei fod wedi mynd â’i gerbyd am wiriad cyn-archwiliad, ac roedd wedi rhoi manylion ynghylch y gwaith a oedd ei angen i garej, lle gwnaethpwyd y gwaith trwsio. Roedd y Gyrrwr wedi talu am y gwasanaethau hynny. Yna cafodd y cerbyd ei gyflwyno ar gyfer y Prawf Cydymffurfio / MOT, ac wedi methu. Yna cafodd y cerbyd waith trwsio pellach lle pasiodd y Prawf Cydymffurfio/MOT wedi hynny.

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, fe dderbyniodd y pwyllgor fod y Gyrrwr wedi cymryd camau rhesymol i sicrhau addasrwydd ei gerbyd yn yr achos hwn, a’i ystyried yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni/cerbyd hurio preifat. Argymhellodd yr Aelodau hefyd fod yr 20 pwynt cosb a roddwyd i'r Gyrrwr yn cael eu tynnu ymaith ar unwaith.

Cafodd penderfyniad y pwyllgor a'r rhesymau felly eu cyfleu i'r Gyrrwr.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.10 a.m.